

SUT GALLWN NI ELWA AR DDOETHINEB DUWIOL?

Nodyn i'r siaradwr:

Eglura mewn tŷn gynnes ac yn argyhoeddedig pam mae'r Beibl yn llyfr llawn doethineb, ac yn rhoi cyngor ymarferol i bobl o bob oedran. Dangosa'r manteision sy'n dod o roi doethineb Duw ar waith wrth wynebu heriau mewn bywyd

MAE GWEITHREDOEDD YN PROFI BOD DOETHINEB DUW YN IAWN (3 mun.)

Mae pobl wedi dod yn eu blaenau ym myd gwyddoniaeth, meddyginiaeth, a thechnoleg, ond nid ydyn nhw wedi llwyddo i gael gwared ar ryfel, trosedd, a thlodi; nid yw doethineb dynol wedi llwyddo i wneud pobl yn fwy cariadus, yn heddychlon, na'n rhesymol (Iag 3:13-16)

Mae doethineb dynol yn methu'n lân oherwydd y mae'n gwrthod cyngor Ffynhonnell gwir ddoethineb, sef Jehofa Dduw (Dia 9:10; Jer 8:9; 1Co 1:19-21)

Ceir doethineb Duw yng Ngair Jehofa, y Beibl

Mae gweithredoedd yn profi bod doethineb Duw yn iawn oherwydd y mae'n achosi canlyniadau da ym mywydau'r rhai sy'n ei ddilyn (Mth 11:19b; Iag 3:17, 18, *BCND*)

MAE DOETHINEB DUW O FUDD I BOBL IFANC (5 mun.)

Mae pobl ifanc sy'n caru Gair Duw ac yn ei ddilyn yn cael bywyd hapus a llwyddiannus (Sal 1:1, 2)

Maen nhw'n gwybod bod Jehofa Dduw yn eu caru ac yn dymuno'r gorau iddyn nhw, a dyna pam mae arno eisiau iddyn nhw fod yn foisol lân a defnyddio eu hegri i'w wasanaethu (Pre 12:1; Esei 48:17)

Pan fo pobl ifanc yn cael eu harwain gan gyngor Jehofa, maen nhw'n osgoi'r canlyniadau poenus sy'n dod o gymdeithasu â chwmni drwg ac o adloniant anaddas (Sal 119:9; Dia 13:20; Ga 6:7, 8)

Mae pobl ifanc sydd â pherthynas â Jehofa yn mwynhau bywyd sy'n llawn pwrpas ac yn sicr o ddyfodol diogel (Sal 73:28; 1In 2:17)

MAE DOETHINEB DUW O FUDD I GYPLAU PRIOD (5 mun.)

Yn ei Air, mae Duw yn rhoi urddas i'r gŵr a'r wraig; mae'n eu cyfeirio nhw i ddangos cariad a pharch tuag at ei gilydd (Eff 5:28, 33; *w13-E* 5/15 17-18 ¶11-17)

Rhowch anghenion a diddordebau eich cymar yn gyntaf (Mth 19:4-6; *lv* 126-128 ¶13-15)

Gall cyplau priod wrthsefyll problemau drwy siarad yn agored gyda'i gilydd (Eff 4:29, 31, 32; Col 4:6; *w15-E* 1/15 26-27 ¶13-15)

Mae'r rhai sy'n rhoi doethineb Duw ar waith yn eu priodas yn fodlon eu byd, yn cadw cydwybod dda, ac yn fwy na hynny, yn dangos eu cariad a'u parch tuag at Jehofa, yr Un a sefydlodd briodas

MAE DOETHINEB DUW O FUDD INNI YN YSTOD AMSERAU ANODD (15 mun.)

Gall doethineb Duw ein cryfhau ni fel nad ydyn ni'n gwangalonni neu'n mynd i banics wrth wynebu problemau (Sal 23:1-4)

Wrth wynebu pwysau ariannol

Cadwch y Deyrnas a chyflawnder Jehofa yn gyntaf yn eich bywyd, yn gwbl ffyddiog y bydd Duw yn "dangos ffordd i chi ddianc" (1Co 10:13; Mth 6:33; *w14-E* 4/15 21 ¶17)

Os ydych chi'n gweithio oddi gartref i ffwrdd o'ch teulu, gweddiwch am ddoethineb Duw a dilynwch orchymnion ac egwyddorion Jehofa (Dia 28:6)

Mae rhai wedi anwybyddu'r peryglon o fyw oddi wrth eu cymar a'u plant, ac yna wedi dioddef canlyniadau poenus (*w14-E* 4/15 19-20 ¶8-11)

Y peth pwysicaf yw anghenion ysbrydol eich teulu (De 6:6, 7; *w14-E* 4/15 18-19 ¶7)

Wrth wynebu problem meddygol ddifrifol

Daliwch ati i ofyn i Jehofa eich helpu chi i oddef ac i gadw egwyddorion y Beibl mewn cof wrth ichi ddewis triniaeth feddygol (Dia 14:15; *w15-E* 12/15 26 ¶14-16; *w06-E* 3/1 25 ¶12-13)

Osgowch gadw eich hunain ar wahân i bawb, mae angen cariad ein brodyr arnon ni, yn ogystal â'r anogaeth y cawn yn y cyfarfodydd Cristnogol (Dia 18:1; Mth 18:20; Heb 10:24, 25)

Cofiwch fod Jehofa yn deall eich sefyllfa (Na 1:7; Mc 12:41-44)

Wrth ymdopi â straen neu unigrwydd

Er eich bod yn gwasanaethu Duw, efallai eich bod chi, ar adegau, yn teimlo'n unig, oherwydd eich bod chi'n sengl, wedi ysgaru, neu'n galaru

Cadwch eich meddwl ar eich gobaith ar gyfer y dyfodol, a daliwch ati i gadw'n brysur yn y weinidogaeth (Act 20:35; 2Co 4:18)

Gall doethineb Duw eich helpu chi rhag gwneud penderfyniadau gwael yn ystod amseroedd anobeithiol (Sal 55:22; 1Ti 5:5)

Pan ydyn ni'n ddigalon, peth da yw erfyn ar Jehofa am heddwch

Peidiwch â dal yn ôl rhag gofyn am help eich brodyr a chwirydd yn y gynulleidfa (Php 4:6, 7; *w14-E* 6/15 9 ¶4)

BYDD JEHOFA YN EICH HELPU I FOD YN DDOETH (2 fun.)

Mae doethineb Duw bob tro yn gyflawn, ac y mae o fudd inni er gwaethaf ein hamgylchiadau [**Darlenna Iago 1:5**]

Gweddïwch am ddoethineb Duw a'i roi ar waith, ymddiriedwch yn Nuw i'ch helpu chi ddelio â'ch problemau (Iag 3:13)

Trysorwch eich perthynas â Jehofa nawr ac am byth (Jer 9:23, 24)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]

Rhif 194-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania